








**Canllaw i**  
**Rieni, Gwarcheidwaid**  
**a Gofalwyr**  
**Myfyrwyr Amser Llawn**  
**2019/20**



Chwilio **NPTC Group**     

Eich Coleg **Eich Dewis**



# Croeso

## **Annwyl riant, gwarcheidwad neu ofalwr,**

Os yw eich mab, merch neu berson ifanc yn dod i'r coleg ym mis Medi, bydd yn syn gennych sylweddoli pa mor gyflym mae'r blynyddoedd wedi mynd heibio ers iddo/iddi ddechrau yn yr ysgol. Mae dechrau yn y Coleg yn 16 oed yn beth eithaf aeddfed i'w wneud ac efallai yn gam mawr tuag at ddod yn annibynnol. Fodd bynnag, i minnau a chithau fel rhieni, rydym yn ymwybodol pa mor ifanc ydynt o hyd mewn gwirionedd. Mae angen ein cymorth a' cyfarwyddyd arnynt o hyd, ond yn fwyfwy, maent am wneud mwy o'u penderfyniadau eu hun. Nid yw'r broses o 'ollwng y ffrwyn' yn un hawdd ond hoffem ni, Grŵp Colegau NPTC, eich helpu chi. Mae gennym hefyd y dasg anodd o ddisgwyl i bobl ifanc ymddwyn fel oedolion, gan barchu eu hannibyniaeth gynyddol.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth a fydd o gymorth i chi gobeithio. Bydd nosweithiau agored a nosweithiau cynnydd yn eich galluogi i grwdd â Chydlynnydd Cwrs neu Diwtor Personol eich mab, eich merch neu'ch person ifanc i drafod eu cynnydd a'u datblygiad. Yna gallwn gydweithio er mwyn cyrraedd sefyllfa ddelfrydol sef partneriaeth hapus rhwng y myfyrwyr, y Coleg a'r cartref.

Manteisiwch ar yr enwau a'r rhifau ffôn a restrir yn y llyfryn hwn a ffoniwch y bobl dan sylw os oes gennych unrhyw broblemau.

### **Mark Dacey**

Prif Weithredwr, Grŵp Colegau NPTC

# Cynnwys

- Tudalen 3** » Manylion Cyswllt y Coleg
- Tudalen 4** » Cyflwyniad
  - » Pam dewis Grŵp Colegau NPTC?
  - » Cysylltu â: Rhieni, Gwarcheidwaid a Gofalwyr
  - » Nosweithiau Rhieni
- Tudalen 5** » Cyrsiau, Cyrsiau, Cyrsiau
  - » System Diwtorial y Coleg
- Tudalen 6** » Wythnosau Cyntaf y Tymor
  - » Absenoldeb o'r Coleg
- Tudalen 7** » Beth yw NPTC Moodle?
  - » Cymorth Ariannol i Fyfywrwr
- Tudalen 8** » Teithio i'r Coleg
  - » Cymorth Astudio i Fyfywrwr
- Tudalen 9** » Myfywrwr ag Anableddau
- Tudalen 10** » Cymorth Personol
- Tudalen 11** » Cyfrifoldeb y Coleg i Roi Gwybodaeth i Rieni, Gwarcheidwaid a Gofalwyr
  - » Cyd-weithio: Sut Gall Rhieni, Gwarcheidwaid neu Ofalwyr Helpu?
- Tudalen 12** » Disgyblu Myfywrwr
  - » Gyrfaoedd a Chynllunio Addysg Uwch
  - » Cyflogaeth Ran-amser
- Tudalen 13** » Cwestiynau Cyffredin
- Tudalen 16** » Dyddiadau'r Tymhorau 2018/19

Roedd yr wybodaeth a geir yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg gynhyrchu. Os hoffech chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod gael y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Swyddfa Amrywiaeth ar [diversity@nptcgroup.ac.uk](mailto:diversity@nptcgroup.ac.uk) neu ar 01639 648175.

This booklet is also available in English upon request.

# Manylion Cyswilt Grŵp Colegau NPTC

E-bost: [info@nptcgroup.ac.uk](mailto:info@nptcgroup.ac.uk) • [www.nptcgroup.ac.uk](http://www.nptcgroup.ac.uk)

## Coleg Castell-nedd

Heol Dŵry-Felin,  
Castell-nedd, SA10 7RF  
Ffôn: 01639 648000



## Coleg Afan

Coleg Afan, Margam,  
Port Talbot SA13 2AN  
Ffôn: 01639 648200



## Academi Chwaraeon Llandarcy

Parc Llandarcy, Sgiwen,  
Castell-nedd SA10 6JD  
Ffôn: 01639 648722




## Coleg Pontardawe

Tŷ Tawe, Ystad Ddiwydiannol Alloy,  
Pontardawe, SA8 4EN  
Ffôn: 01639 648100




## Coleg Bannau Brycheiniog

Penlan, Aberhonddu, Powys, LD3 9SR  
Ffôn: 01686 614400



## Campws Llandrindod

Ffordd Sba, Llandrindod Wells,  
Powys. LD1 5ES  
Ffôn: 01686 614300



## Coleg Y Drenewydd

Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd,  
Powys. SY16 4HU  
Ffôn: 01686 614200



## Canolfan Adeiladwaith Abertawe

Clos Dewi Sant, Parth Anturiaeth Abertawe,  
Llansamlet, SA6 8QL  
Ffôn: 01639 648120



## Canolfan Adeiladwaith Maesteg

Uned 7, Ystad Ddiwydiannol Spelter,  
Maesteg, CF34 0TY  
Ffôn: 01639 648180

## Cyflwyniad

Bwriedir y canllaw hwn i chi fel rhiant, gwarcheidwad neu ofalwr myfyriwr amser llawn Grŵp Colegau NPTC. Fe'i bwriedir i roi gwybodaeth allweddol i chi a fydd ei hangen arnoch yn ystod y flwyddyn. Rydym yn gobeithio y bydd y canllaw yn ddefnyddiol; Os oes angen rhagor o fanylion arnoch, rhowch wybod i ni.

## Pam dewis Grŵp Colegau NPTC?

Er y gall y profiad o ddod i Grŵp Colegau NPTC fod yn gam mawr, gwnawn ein gorau glas i helpu myfyryr newydd i ymgartrefu mor fuan â phosibl. Dyma rai o'r manteision allweddol ar gyfer myfyryr sy'n astudio yng Ngrŵp Colegau NPTC:

- Cymorth personol gan Diwtoriaid Cwrs, Gwasanaethau Myfyryr a Chwmselwyr y Coleg
- Cymorth Sgiliau Astudio
- Cyfleusterau chwaraeon gwyb
- Ysgoloriaethau ar gael (trwy broses ymgeisio)
- Cynllun Llysgenhadon Myfyryr
- Undeb y Myfyryr (a cherdyn disgownt UCM ar gael)
- Canolfannau Adnoddau Dysgu ar flaen y gad ardaloedd astudio tawel, cyfrifiaduron gyda mynediad i'r rhyngwyd ac adnoddau llyfrgell
- Bwsariaethau ar gael ar gyfer Disgyblion rhagorol o ysgolion partner.

## Cysylltu â Rhieni, Gwarcheidwaid a Gofalwyr

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y cyswllt sydd gennym gyda rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr; Mae myfyriwr yn fwy tebygol o gyflawni eu hamcanion pan mae'r myfyriwr a'r Coleg yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaeth. Mae croeso i chi gysylltu â Chydlynnydd Cwrs neu Diwtor Personol eich mab, eich merch neu'ch person ifanc ar unrhyw adeg os oes gennych bryderon ynghylch eu cynnydd yn y coleg neu unrhyw fater arall.

## Nosweithiau Cynnydd

Byddwch yn derbyn y dyddiadau ar gyfer nosweithiau rhieni neu nosweithiau gwybodaeth. Os hoffech siarad â thiwtor personol neu gydgyssylltydd cwrs eich person ifanc ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs, cysylltwch â'r brif dderbynfaf i drefnu apwyntiad os gwelwch yn dda. Ffôn: 01639 648 000 (y De) neu 01686 614 205 (Gogledd).

## Cyrsiau, Cyrsiau, Cyrsiau,

Am fod Grŵp Colegau NPTC yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau a lefelau astudio, efallai y bydd angen rhywfaint o help ar eich mab, eich merch neu'ch person ifanc wrth wneud penderfyniad terfynol - Dyma rai o'r ffactorau i'w hystyried:

- Cymwysterau presennol
- Arddulliau dysgu
- Ymarferol/theori
- Nodau Gyrfa
- Dewis gradd
- Cynnwys profiad gwaith / lleoliad gwaith yn y rhaglen astudio
- Mwynhad o'r pynciau a astudir

Mae Cyngorwyr Gyrfa Cymru ar gael drwy gydol yr haf i helpu eich mab, eich merch neu'ch person ifanc gyda'u cynlluniau. Gallwch gysylltu â Gyrfa Cymru ar 0800 028 4844. Byddant hefyd yn ar gael yn y Coleg yn ystod y cyfnod ymrestru.

Mae bob amser yn ddoeth i fyfyrwyr ddarganfod cymaint ag y gallant am y cyrsiau ymlaen llaw drwy siarad â staff neu ymweld â'r Coleg ar Ddiwrnodau Agored i sicrhau bod y cwrs yn addas ac yn bodloni eu huchelgeisiau.

## System Diwtorial y Coleg

Mae pob myfyriwr amser llawn yn cael tiwtor personol sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei grŵp o fyfyrwyr yn gwneud y gorau o'u rhaglen astudio yng Ngrŵp Colegau NPTC.

Yn ystod sesiynau tiwtorial a gynlluniwyd, mae tiwtoriaid a myfyrwyr yn trafod cynnydd, gosod targedau a chreu cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella. Mae'r broses hon yn cynnwys llunio Cynllun Dysgu Unigol. Mae Cynlluniau Dysgu Unigol yn ymdrin â materion addysg uwch ynghyd ag amrywiol agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol a gyrfaoedd.

Cefnogir tiwtoriaid gan Wasanaethau Myfyrwyr, Gyrfa Cymru a Chwmselwyr y Coleg.





## Wythnosau Cyntaf y Tymor

Mae cyrsiau yn dechrau gyda chyfnod ymsefydlu i sicrhau bod myfyrwyr newydd yn ymgartrefu yn y Coleg yn hapus. Bydd pob myfyriwr yn derbyn pecyn croeso sy'n cynnwys y gwasanaethau a gynigiwn, ein disgwyliadau o ran ein myfyrwyr, manylion am ein dulliau gweithredu a rhifau ffôn defnyddiol. Bydd pob myfyriwr newydd yn mynychu cwrs ymsefydlu manwl gyda'i diwtor. Ar yr adeg honno, byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn dilyn y cwrs mwyaf priodol gan fod yn gwbl ymwybodol o'r holl gyfleusterau ac adnoddau sydd ar gael yn y coleg.

## Absenoldeb o'r Coleg

### Disgwylir presenoldeb o 100% fel rheol.

Fodd bynnag, os bydd eich mab, eich merch neu'ch person ifanc yn sâl heb allu dod i'r coleg bydd angen iddynt ffonio'r llinell absenoldeb ar 01639 648640 erbyn 9.30 bob diwrnod y maent yn absennol.

Gyda chyfnodau o absenoldebau am chwe diwrnod Coleg neu fwy yn olynol, bydd angen tystysgrif feddygol gan y meddyg. Dylid cyflwyno'r dystysgrif i'r tiwtor cwrs ar ôl dychwelyd i'r coleg.

Bydd gofyn i'ch mab, eich merch neu'ch person ifanc gwrdd â'r tiwtor cwrs wrth dychwelyd i sicrhau eu bod yn derbyn unrhyw waith a gollwyd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

Apwyntiadau meddygol: Mae gofyn i fyfyrwyr gael caniatâd am absenoldeb awdurdodedig gan eu tiwtor a Gwasanaethau Myfyrwyr cyn unrhyw apwyntiad.

Sylwch os gwelwch yn dda nad yw cyfnodau rheolaidd o absenoldeb sy'n para am ddiwrnod unigol yn dderbyniol, a bydd y Coleg yn eu herio. Byddant hefyd yn effeithio ar daliadau Lwfans Cynhaliath Addysg a GDLIC.

NI DDYLAI myfyrwyr drefnu apwyntiadau cyffredin gyda'r meddyg/deintydd neu wersi gyrru ar yr un pryd â'u gwersi ac NI DDYLAI myfyrwyr fynd ar eu gwyliau yn ystod y tymor.

Dim ond 1 cyfnod o Absenoldeb Awdurdodedig a ganiateir bob hanner tymor, ac mae hyn yn cynnwys pethau fel profion gyrru, angladdau teuluol ac ati.

Bydd rhagor o fanylion am Absenoldeb Awdurdodedig ac Absenoldeb heb ganiatâd ar y system Moodle Myfyrwyr.

## Beth yw Moodle NPTC?

Y rhith-amgylchedd dysgu (VLE) yw'r enw a ddefnyddir ar gyfer y feddalwedd Moodle. Mae ar gael drwy Borth y myfyrwyr ar Wefan y Coleg ar gyfer addysgu, dysgu a chyfathrebu. Defnyddir Moodle Grŵp Colegau NPTC i gefnogi sesiynau ystafell ddosbarth a gweithdai.

### Beth yw Moodle yn cynnig i fyfyrwyr?

- Mynediad i adnoddau dysgu ar-lein
- mynediad i adnoddau athrawon
- mynediad i ddeunyddiau adolygu
- mynediad i adnoddau a rennir
- mynediad i wersi, gwaith cwrs ac adnoddau gwaith cartref
- mynediad i'ch llyfr gwaith personol a chofnodion cynnydd
- Mae ar gael drwy'r amser a gellir ei gyrchu drwy'r rhyngwyd.

### Sut gall myfyrwyr ei gyrchu?

Dyrennir enw defnyddiwr a chyfrinair personol Grŵp Colegau NPTC i bob myfyriwr. Mae hyn yn galluogi pob myfyriwr i fewngofnodi i'r adnodd hwn. ([moodle.nptc.ac.uk](http://moodle.nptc.ac.uk))

## Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr

### Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig lwfans cynhaliaeth addysg gyfer myfyriwr 16, 17 a 18 oed mewn addysg amser llawn ar draws Cymru. Bwriedir y LCA i helpu gyda'r gost o fynd i'r coleg, ac ar gyfer y rhai sy'n gymwys, telir taliad o £30.00 bob wythnos bob pythefnos yn uniongyrchol i gyfrif banc y myfyriwr. Gwneir taliadau i fyfyrwyr yn seiliedig ar incwm yr aelwyd. Mae myfyrwyr yn arwyddo Cytundeb Dysgu a gwneir taliadau yn ôl presenoldeb, cynnydd, agwedd ac ymddygiad.

Sylwch os gwelwch yn dda na fydd staff, fel arfer yn trafod LCA y myfyriwr gyda rhieni oni bai bod y myfyriwr wedi rhoi caniatâd penodol. Dylai myfyrwyr gydag ymholiadau LCA fynd i Wasanaethau Myfyrwyr am gymorth.

### Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC)

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig GDLIC ar gyfer myfyrwyr 19 neu drosodd. Bwriedir y LCA i helpu gyda'r gost o fynd i'r coleg, ac ar gyfer y rhai sy'n gymwys, telir taliad o £30.00 bob wythnos bob pythefnos yn uniongyrchol i gyfrif banc y myfyriwr. Mae myfyrwyr yn arwyddo Cytundeb Dysgu a gwneir taliadau yn ôl presenoldeb, cynnydd, agwedd ac ymddygiad.



## Y Gronfa Ariannol wrth Gefn i Fyfyrywyr (CAWG)

Gall y gronfa hon helpu gyda'r costau sy'n codi fel rhan o'r rhaglen astudio, megis gofal plant, teithio, llety a Choleg, prydau am ddim ac ati. Mae gwybodaeth bellach ar gael gan ein tîm Gwasanaethau Myfyrywyr ac mae ffurflenni cais ar gael gan Wasanaethau Myfyrywyr ar 01639 648711 (Castell-nedd) neu 01686 614202/599 (Powys).

**SYLWCH: Darperir y gronfa ariannol wrth gefn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa yn gyfyngedig ac fe'i dyrennir ar sail y cyntaf i'r felin. Ymddiheurwn ond efallai na fydd yn bosibl i helpu pob myfyriwr sy'n ymgeisio. Argymhellir yn gryf i chi wneud cais yn gynnar. Rhaid i'r myfyrywyr fod yn derbyn LCA neu GDLIC cyn gwneud cais am GAWG.**

## Teithio i Grŵp Colegau NPTC

### Campysau NPT

£285 yw cyfraniad y myfyriwr am docyn bws â chymhorthdal ar gyfer 2019/2020 Telir fesul rhandaliadau dros y flwyddyn academiaidd, gyda £90 yn daladwy ar ddechrau'r tymor cyntaf a £90 ar ddechrau pob tymor dilynol. Byddwch yn gymwys am gerdyn bws â chymhorthdal os ydych:

- Yn byw mewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot neu Ddinas a Sir Abertawe
- Yn byw mwy na 3 milltir o'r campws lle y byddwch yn astudio.

### Campysau Powys

Darperir tocyn bws am ddim ar gyfer myfyrywyr amser llawn o dan 19 oed sy'n byw mwy na 3 milltir i ffwrdd o'r coleg (Mae rhai cyfyngiadau yn berthnasol). Mae manylion am amseroedd a llwybrau bysiau ar gael gan Wasanaethau Myfyrywyr.

**PWYSIG - os ydych yn byw y tu allan i'r siroedd a restrir uchod, dylech gysylltu â'r Adran Cludiant Myfyrywyr yn eich AWDURDOD ADDYSG LLEOL cyn gynted â phosibl, i ofyn am gymorth gyda chostau cludiant. Os nad oed modd iddynt eich helpu, gofynnwch am lythyr cadarnhad fel y gallwn ymchwilio dulliau o helpu i dalu am gludiant â chymhorthdal i chi. Am gyngor pellach, cysylltwch â Derbyniadau ar 01639 648000 (Castell-nedd) neu 01686 614205 (Powys).**

## Cymorth Astudio i Fyfyrywyr

Mae angen gymorth ychwanegol ar lawer o fyfyrywyr, am amrywiaeth o resymau, i'w helpu i lwyddo yn eu hastudiaethau a chyflawni eu potensial. Mae'r holl fyfyrywyr amser llawn yn cael asesiad anffurfiol o'u hanghenion cymorth ar ddechrau'r cwrs neu yn y cyfweliad. Rhowch wybod i ni os ydych yn meddwl y

byddai eich mab, merch neu berson ifanc yn elwa o gael cymorth ychwanegol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran Cymorth i Fyfyrrwyr sydd ar gael yn y Parth Myfyrrwyr ar wefan y coleg.

Mae'r Tîm Cymorth Astudio yn cynnig amrywiaeth eang o gymorth a chefnogaeth yn cynnwys:

- Gweithio gyda myfyrrwyr, mewn sesiynau galw heibio neu weithdai, am waith cwrs a/neu i wella eu sgiliau ysgrifennu neu fathemateg
- Offer a chymorth arbenigol ar gyfer myfyrrwyr ag anawsterau dysgu penodole.e. dyslecsia
- Tîm o gynorthwyrwyr cymorth astudio a all ddarparu cymorth yn yr ystafell ddosbarth neu y tu allan i'r dosbarth
- Cymorth ar gyfer y rhai ag anableddau corfforol megis nam ar y clyw neu'r golwg neu symudedd cyfyngedig
- Amser ychwanegol neu drefniadau arbennig ar gyfer arholiadau.

Os hoffech drafod eich anghenion cymorth ychwanegol, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Astudio:

Natalie Joseph: 01639 648075 (De) Hazel Wilson: 01686 614295 (Gogledd)

## Myfyrrwyr ag Anableddau

Mae Grŵp Colegau NPTC yn ymrwymedig i sicrhau bod myfyrrwyr ag anableddau, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cael eu trin yn deg. Byddwn yn gwneud pob addasiad rhesymol i'n darpariaethau i wneud yn siŵr nad yw myfyrrwyr ag anghenion ychwanegol dan anfantais.

Mae Grŵp Colegau NPTC yn ddarparwr cyfle cyfartal ac rydym yn annog ceisiadau gan fyfyrrwyr ag anghenion ychwanegol neu anableddau.

Mae gennym amrywiaeth o offer arbenigol i helpu'r rhai ag anableddau, megis nam ar y golwg a'r clyw, a staff sydd wedi'u hyfforddi sy'n cynnig cyngor a chymorth cyfeillgar.



Mae manylion pellach ar gael yn Natganiad Anabledd Grŵp NPTC. Os oes gennych angen dysgu ychwanegol, rhowch wybod i ni fel y gallwn wneud popeth i'ch helpu i lwyddo.

Cysylltwch â Natalie Joseph: 01639 648075 (De)

Hazel Wilson: 01686 614295 (Gogledd)

## **Cymorth personol**

### **Cwmsela yn y Coleg**

Mae gan y Coleg Wasanaeth Cwmsela proffesiynol. Mae Cwmselwyr y Coleg wedi'u lleoli yn yr adran Gwasanaethau Myfyrwyr ac maent yn darparu gwasanaeth cyfrinachol ar gyfer pob myfyriwr. Mae'r cwmselwyr yn meddu ar gymwysterau proffesiynol, yn cadw at God Moeseg BACP ac mae ganddynt brofiad helaeth mewn amrywiaeth eang o feysydd. Gellir cysylltu â'r Cwmselwyr drwy Wasanaethau Myfyrwyr.

### **Rhai sy'n gadael gofal/plant sy'n derbyn gofal**

Mae gan y Coleg Unigolion Dynodedig sy'n gweithredu fel eiriolwr ac yn rhoi cymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifanc sy'n gadael y system ofal. Cysylltwch â Heather Turner ar 01639 648376 (De) neu Rosemary Denham 01686 614202 (Gogledd).

### **Oxbridge**

Rydym yn annog myfyrwyr i anelu'n uchel ac mae rhai sy'n dyheu i Rydychen neu Gaergrawnt yn derbyn cymorth a chyfarwyddyd gan diwtoriaid Rhydychen a staff uwch y Coleg. Trefnwyd ymweliadau penodol i Oxbridge, gan gynnwys aros dros nos, ar gyfer myfyrwyr sy'n bwriadu gwneud cais, lle y rhoddwyd cyngor am y broses ymgeisio gan diwtoriaid derbyn mewn prifysgolion.

### **Rhaglen Ragoriaeth i Fyfrwyr Galluog a Thalentog (Coleg Castell-nedd)**

Gall aelodau Academi Chweched Dosbarth Grŵp Colegau NPTC fod yn gymwys i wneud cais am ein cymorth i'r dysgwyr hynny gyda chanlyniadau TGAU eithriadol (graddau A \* ac A yn eu harholiadau TGAU). Bydd y rhai sy'n gwneud cais i brifysgolion cystadleuol, yn enwedig y rheini yn y grŵp Russell, Rhydychen a Chaergrawnt, yn derbyn cymorth personol drwy ein Rhaglen Ragoriaeth i Fyfrwyr Galluog a Thalentog. Mae cais i brifysgolion cystadleuol yn gofyn am fwy na graddau rhagorol. Rhaid i chi wneud dewis gwybodus ynghylch y pynciau yr ydych am eu hastudio, deall y broses ddethol gystadleuol a'r systemau, gyflwyno cais caboledig a rhagori mewn cyfweiliadau.

Os oes gennych broffil TGAU sy'n cynnwys graddau A \* ac A yn bennaf, caiff eich gosod mewn grŵp tiwtorial penodol a fydd yn diwallu'ch anghenion a'ch uchelgeisiau. Y nod yw ehangu eich gorwelion y tu hwnt i'ch dewis bynciau a hyrwyddo rhesymu dadansoddi a thrafod. Os oes angen rhagor o wybodaeth cyn cofrestru cysylltwch â Dirprwy Bennaeth y Chweched Dosbarth ar 01639 648000.

### **Hyfforddwy'r Sgiliau Astudio a Gwasanaethau Myfyrwy'r**

Rydym yn darparu cymorth cyfrinachol, parhaus i fyfyrwy'r, gan eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial a chwalu'r rhwystrau i ddysgu. Rydym yn cysylltu â staff, rhieni, gofalwy'r ac asiantaethau mewnol ac allanol i sicrhau bod anghenion y myfyrwy'r yn cael eu diwallu. Rydym hefyd yn hwyluso grwpiau cymorth myfyrwy'r yn seiliedig ar y galw a'r angen.

### **Cyngor a Chyfarwyddyd**

Os oes angen cymorth a chyfarwyddyd ychwanegol ar fyfyrwy'r neu os oes ganddynt unrhyw bryderon, mae'r Tîm Gwasanaethau Myfyrwy'r yno i helpu a chefnogi. Mae gennym dîm proffesiynol a chyfeillgar o staff rheng flaen sy'n gallu cynnig cyngor, eiriol a chyfeirio myfyrwy'r at staff a sefydliadau partner a all helpu.

## **Cyfrifoldeb y Coleg i roi gwybodaeth i Rieni, Gwarcheidwaid neu Ofalwy'r**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu perthynas agosach gyda'r holl rieni, gwarcheidwaid a gofalwy'r o fyfyrwy'r sydd o dan 18 oed a rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i chi am eu cynnydd. Fodd bynnag, ceir rhai cyfyngiadau ar y wybodaeth y gellir ei rhoi i chi oherwydd y Ddeddf Diogelu Data 1998.

Mewn rhai amgylchiadau, er mwyn cydymffurfio â Ddeddf Diogelu Data, efallai y bydd angen i ni gael caniatâd gan fyfyrwy'r cyn y gallwn ddarparu gwybodaeth amdanynt. Oherwydd cyfyngiad y Ddeddf Diogelu Data, ni allwn ddarparu gwybodaeth ichi ar unwaith dros y ffôn. Byddwn yn cymryd eich manylion a ffonio'n ôl, ar ôl i ni ddilysu ein bod yn gallu rhoi'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani i chi.

Ar gyfer myfyrwy'r dros 18 oed, nid yw'r gyfraith yn cydnabod unrhyw hawliau gan rieni, gwarcheidwaid neu ofalwy'r i gael gwybodaeth am eu plant. Byddai hefyd yn torri Ddeddf Diogelu Data 1998 os ydym yn anwybyddu dymuniad datganedig gan fyfyrwr i beidio â rhyddhau gwybodaeth. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r cyfyngiadau hyn, byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad agos â chi ac rydym yn eich annog i gysylltu â ni gydag unrhyw bryderon a allai fod gennych.

## Cyd-weithio:

### Sut gall rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr helpu?

Gallwch helpu drwy gefnogi ac annog eich mab/merch/person ifanc wrth ddewis y cwrs cywir a chadw mewn cysylltiad â Thiworiaid Personol dros unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## Disgyblu Myfyrwyr

Rydym am i bawb fwynhau ei amser yn y Coleg ac rydym yn disgwyl ymddygiad da gan ein holl fyfyrwyr, gan gynnwys dangos parch at eraill.

Mae'r Cod Ymddygiad Myfyriwr yn esbonio ein rheoliadau a'n rheolau allweddol. Dylai myfyrwyr ymgyswddo â'r polisi hwn sydd ar gael ar Moodle.

Mae gennym Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr ffurfiol. Bydd staff yn gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n peri pryder. Fel arfer mae hawl gan bob myfyriwr i fynd drwy bob cam o'r Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr (heblaw pan fydd droseddau'n ddifrifol). Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd natur yr ymddygiad yn arwain at rybudd ysgrifenedig neu waharddiad hyd yn oed pan mai dyna'r tro cyntaf i ymddygiad o'r fath ddiwydd.

### Ceir 4 cam fel arfer i'r Weithdrefn Ddisgyblu Myfyrwyr:

1. Rhybudd llafar
2. Rhybudd ysgrifenedig
3. Rhybudd ysgrifenedig terfynol
4. Cam 4 – Camymddwyn Difrifol yn Arwain at Waharddiad

Lle y bo'n briodol, byddwn yn eich cynnwys yn y broses ddisgyblu; Bydd hyn fel arfer ynghylch achosion o broblemau ymddygiadol sy'n digwydd yn aml a/neu ddiwyddiadau difrifol.

## Gyrfaoedd a Chynllunio Addysg Uwch

Mae Grŵp Colegau NPTC yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i helpu myfyrwyr ac mae amrywiaeth eang o adnoddau gyrfaoedd sydd ar gael yn y Coleg a fydd yn helpu myfyrwyr gyda'u dewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach am unrhyw agwedd ar yrfaoedd, cysylltwch â Gwasanaethau Myfyrwyr. Ffôn: 01639 648000 (Castell-nedd) neu 01686 614205 (Powys).

## Cyflogaeth ran-amser

Mae llawer o'n myfyrwyr yn ymgymryd â gwaith rhan-amser ochr yn ochr ag astudio yn y Coleg. Gan amlaf, mae hyn yn hynod o fuddiol ac mae myfyrwyr yn elwa nid yn unig o'r incwm ychwanegol y maent yn ei dderbyn, ond hefyd o ganlyniad i'r profiad ac annibyniaeth y mae swyddi rhan-amser yn eu darparu.

Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth sylweddol sy'n dangos bod eu gwaith Coleg yn debygol o ddiodeff pan mae swydd ran-amser o fwy na 6 awr yr wythnos gan fyfyrwr amser llawn, bellach. Yn ogystal â mynychu dosbarthiadau, mae gofyn i fyfyrwr gyflawni astudiaethau preifat, er mwyn paratoi yn ddigonol ar gyfer asesiadau ac arholiadau, ac rydym yn gobeithio y cytunwch â ni y dylai myfyrwr flaenoriaethu eu gwaith Coleg yn anad dim. Felly, rydym yn argymhell yn gryf y dylai myfyrwr amser llawn osgoi gweithio mewn swyddi rhan-amser am fwy na 6 awr yr wythnos.

## Cwestiynau Cyffredin

### 1. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng ysgolion a cholegau?

Ar sawl cyfrif, mae'r ysgol a'r coleg yn debyg. Mae mynychu dosbarthiadau yn orfodol, mae myfyrwr yn gorfod bodloni'r holl derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwaith, ac mae disgwyl i myfyrwr ymddwyn mewn ffordd gyfrifol fel nad ydynt yn atal eraill rhag dysgu. Mae Cod Ymddygiad Grŵp Colegau NPTC yn amlinellu'r rheolau a'r rheoliadau yr ydym yn disgwyl i fyfyrwr glynu wrthynt. Nid oes unrhyw derfyn oedran uchaf; Mae gennym nifer o fyfyrwr sy'n oedolion yn NPTC ac, er y mae'r rhan fwyaf yn mynychu cyrsiau a gynlluniwyd yn arbennig i oedolion, mae croeso iddynt fynychu unrhyw un o'n cyrsiau. Mae'n bosibl, felly, y bydd myfyrwr sy'n oedolion mewn rhai dosbarthiadau; mae myfyrwr sy'n oedolion yn bron bob amser yn ymrwymedig i'w cwrs gan weithio'n galed, maent felly'n gosod esiampol ardderchog i fyfyrwr 16-17 oed! Mae myfyrwr yn cael eu trin mwy fel oedolion ac mae disgwyl iddynt ymddwyn yn gyfrifol ac yn trin myfyrwr eraill a staff â pharch.

### 2. Rwyf yn poeni ynghylch anawsterau personol y mae fy mab/merch/person ifanc yn eu hwynebu. Beth ddylwn ei wneud?

Os ydych yn credu y gall y coleg helpu, mae croeso i chi gysylltu â Thiwtor Personol eich mab/merch/person ifanc neu Wasanaethau Myfyrwr. Os yn briodol, byddwn yn eich cyfeirio at asiantaeth berthnasol y tu allan i'r Coleg.

### 3. Faint o waith y bydd yn cael ei osod?

Bydd hyn yn amrywio o gwrs i gwrs, ond dylai pob myfyrwr ar gyrsiau amser llawn dreulio rhywfaint o amser bob wythnos yn astudio y tu allan i ddosbarthiadau, wrth gyflawni pethau fel ymchwil ar gyfer aseiniadau a darllen ychwanegol/atodol yn ogystal â gwaith cartref gosod. Byddai llai na 10 awr yr wythnos yn anarferol, a, bydd gwaith cartref wrth gwrs yn cynyddu ar rai adegau o'r flwyddyn, e.e. cyn arholiadau neu derfynau amser aseiniadau. Os ydych yn poeni nad yw'ch mab/merch/person ifanc yn treulio digon o amser yn astudio, cysylltwch â'r Tiwtor Personol.



#### **4. A fydd BTEC Diploma Estynedig Lefel 3 yn rhoi cyfle i symud ymlaen i'r Brifysgol?**

Bydd. Mae BTEC Diplomâu Estynedig Lefel 3 yn cyfateb i 3 Safon Uwch. Gofynnwch i'ch mab/merch/person ifanc alw heibio i Wasanaethau Myfyrwyr am fwy o wybodaeth am ofynion mynediad y prifysgolion.

#### **5. Â phwy dylwn siarad os oes gennyf bryderon ynghylch cynnydd fy mab/merch/person ifanc yn y Coleg?**

Cysylltwch â'r Tiwtor Personol yn y lle cyntaf. Os hoffech gwrdd â Phennaeth yr Ysgol, cysylltwch â hwy i wneud apwyntiad gan ddefnyddio'r rhifau a ddangosir ar flaen y llyfryn hwn.

#### **6. A fydd hawl i fi barhau i dderbyn budd-dal plant os yw fy mab/merch/person ifanc yn y Coleg?**

Os yw eich myfyrwyr yn 16, 17 neu 18 oed ac mewn addysg amser llawn, byddwch yn dal i allu parhau i dderbyn budd-dal plant a chredydau treth plant. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk)

#### **7. Pa gyfleusterau bwyta ac yfed sydd ar gael?**

Mae detholiad eang o brydau o fwyd, byrbrydau a diodydd ar gael yn y Coleg o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r rhain ar gael yn y Ffreutur ar bob safle. Mae opsiynau llysieuol ar gael.

#### **8. Beth ddylwn ei wneud os oes unrhyw bryderon gennyf?**

Os oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw fater yn ymwneud â Grŵp Colegau NPTC, cysylltwch â Thiwtor Personol eich mab/merch/person ifanc yn y lle cyntaf. Rydym yn argymhell eich bod yn trafod y broblem gyda'r tiwtor neu Bennaeth yr Ysgol, oherwydd fel arfer, rydym wedi canfod mai dyma'r ffordd orau o ddatrys y problemau. Fodd bynnag os na allwch ddatrys eich pryderon gyda'r Tiwtor neu'r Pennaeth yna gofynnwch am gyngor neu gyfarwyddyd pellach gan Wasanaethau Myfyrwyr.

#### **9. Â phwy dylwn gysylltu os oes gennyf bryder sy'n ymwneud â materion crefyddol, diwylliannol neu faterion cydraddoldeb?**

Yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r Swyddfa Amrywiaeth sy'n hapus i drafod unrhyw fater sy'n ymwneud â chydaddoldeb neu amrywiaeth.

Cysylltwch â'r Swyddfa Amrywiaeth ar [diversity@nptcgroup.ac.uk](mailto:diversity@nptcgroup.ac.uk) neu ar 01639 648175.

# **Dyddiadau'r Tymhorau 2019–2020**

## **Tymor yr Hydref:**

**3 Medi 2019 - 20 Rhagfyr 2019**

## **Hanner tymor:**

**28 Hydref 2019 - 1 Tachwedd 2019**

---

## **Tymor y Gwanwyn:**

**7 Ionawr 2019 - 3 Ebrill 2020**

## **Hanner tymor:**

**17 Chwefror 2019 - 21 Mawrth 2020**

---

## **Tymor yr Haf:**

**20 Ebrill 2019 - 2 Gorffennaf 2020**

## **Hanner tymor:**

**25 Mai 2019 - 29 Mai 2020**

Roedd yr wybodaeth a geir yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg gynhyrchu.  
Os hoffech chi, neu rywun yr ydych yn ei adnabod gael y ddogfen hon mewn fformat arall,  
cysylltwch â'r Swyddfa Amrywiaeth ar [diversity@nptcgroup.ac.uk](mailto:diversity@nptcgroup.ac.uk) neu ar 01639 648175.  
Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Saesneg hefyd ar gais.